# Cymraeg Mewn Ymarfer Proffesiynol 1
## ECAD4020-C
## 2025-26

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 8 & 9:
**Mae hi'n amser gwrando!**
18.11.2025

n.evans@pcydds.ac.uk

Peniarth .cymru
RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Allwedd:



Drilio



Ymarfer ar lafar (yn unigol)



Tasg wrando



Gwaith pâr



Grŵp o dri



Gwaith grŵp



Amser canu



Gwaith ar y byrddau gwyn



Tasg ysgrifennu



Tasg ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth i'r Portffolio

**Munud i feddwl …**

# Beth ydy iaith?

Geiriadur Prifysgol Cymru
GPC
*A Dictionary of the Welsh Language*

## Iaith

*eb.* ll. *ieithoedd*, *ieith(i)au*, *ieithydd*.

Cyfangorff y geiriau a arferir gan genedl (pobl, cymuned, &c.) neilltuol, ynghyd â'r dulliau o'u cyfuno, wrth siarad neu wrth ysgrifennu, i fynegi syniadau, teimladau, anghenion, &c.; seiniau synhwyrol neu ystyrlon a gynhyrchir â'r llais dynol, llafar dyn yn gyffredinol heb ystyried gwahaniaethau cenedlaethol……..

# Munud i feddwl …

Beth ydy llythrennedd?

Geiriadur Prifysgol Cymru
GPC
A Dictionary of the Welsh Language

llythrennedd

[llythyren+-edd1]

eg.

Y gallu i ddarllen ac ysgrifennu:

literacy.

**Munud i feddwl …**

# Beth ydy cyfathrebu?

Geiriadur Prifysgol Cymru
GPC
*A Dictionary of the Welsh Language*

cyfathrebu

Cyfnewid, rhannu, neu ledaenu (newyddion, gwybodaeth, &c.) neu gyfleu (teimlad, &c.) ar lafar, yn ysgrifenedig, neu heb ddefnyddio geiriau, llwyddo i rannu neu ledaenu gwybodaeth, cyfleu syniad, &c., mewn ffordd sy'n ddealladwy i eraill;

# Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Maes) yn ymwneud ag agweddau hanfodol cyfathrebu rhwng pobl.  Ei nod yw cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol yn ogystal â llenyddiaeth. (tud.131)

https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf

# Creu amgylchedd sy’n gyfoethog o ran iaith – ddoe, heddiw ac yfory

Bydd y plant yn cael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau iaith…

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, 2015

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg, Cyfnod Allweddol 2, 2015

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru, 2020

# Beth ydy sgiliau sylfaenol?





# Sut ydw i'n gwybod pa sgiliau sydd angen eu haddysgu i'r disgyblion yn y dosbarth?

Fframweithiau Sgiliau Trawsgwricwladd:

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/



# Datblygu sgiliau

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â **sgiliau gwrando**, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Cwricwlwm i Gymru, 2020

# Pryd mae plentyn yn dechrau datblygu sgiliau gwrando?

Imagine what it is like to hear a language for the first time. No, really: imagine.

Did you picture yourself in a crib listening to your mother? Understandably, but think again. We hear language before we are even born. As you will know from those noisy neighbours who drive you mad, sound passes through solid barriers – not just walls of houses but also through the wall of the womb. And it has long been known that the human ear begins to function several weeks before birth, in the third trimester (or third) of pregnancy at about seven months (Sontag & Wallace, 1936). The foetus can respond to the sound of bells, and can even discriminate between different tones. But sensitivity to sound is not the same as sensitivity to language. Can the foetus distinguish noises, like a power drill or the banging of a door …. From the sound of their own mother's voice? Remarkably, the answer is "yes".

(Saxton, 2017, t.5)

Listening is a crucial skill for young children to acquire, and I wish I had a penny for every time I have asked children to do it over the years!

Listening is one of the basic building blocks of language and communication and, particularly in the early years of education, one of the main vehicles for a child's learning.

Up to 80 per cent of learning in the early years is verbal and this is why, as practitioners, it's concerning to see children with poor listening skills.

Geiriau: Eleanor Johnson

https://www.teachearlyyears.com/learning-and-development/view/learning-to-listen

# Beth ydyn ni’n ei feddwl pan rydyn ni’n dweud wrth blentyn am “wrando”?





# Beth sy'n gwneud gwrandawr da?





# Pam fod angen sgiliau gwrando da?





# Datblygu sgiliau gwrando yn y dosbarth …

## Gwrando a siarad

**Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen.**

Lle bo'n briodol, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dealltwriaeth gynnar dysgwyr o iaith trwy fodelu a dangos ystumiau neu symudiadau sy'n cyfleu ystyr geiriau.

- Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd allgyrsiol buddiol, gan gynnwys yn y gymuned leol, i ddysgwyr ddatblygu'u medrau iaith.
- Mae'r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol, fel cyfranogi yn yr Urdd, i addysgu dysgwyr sut i wrando a siarad yn benodol.
- Mae darpariaeth fel arfer yn llai effeithiol pan fydd gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy'n cefnogi dysgu ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau i'w datblygu ynddynt eu hunain.

tudalen 14


Estyn

Caffael yr iaith Gymraeg

Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr

Mawrth 2021

estyn.llyw.cymru

# Bocs cofrestru…






















**Wyt ti'n hoffi …?**





# Sgiliau gwrando a llafar dyddiol
**(Cyfnod Dysgu Sylfaen)**

- Amser cofrestru: drilio, drilio, drilio
- Pwysigrwydd holi, holi, ac holi cwestiynau
- Disgwyliadau uchel o ran atebion
- Dangos arfer da – model llafar DA a CHYWIR
- Dysgu caneuon a rhigymau

# Datblygu sgiliau gwrando










Another important aspect of listening is the ability to distinguish the sounds in words. Children need to be able to hear the different elements of a word such as syllables or phonemes.

Distinguishing between these sounds will allow a child to eventually blend and segment words.

These listening skills form the basis of phonological awareness and without this, a child will struggle to learn to read.

Geiriau: Eleanor Johnson

https://www.teachearlyyears.com/learning-and-development/view/learning-to-listen

## Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| **Cymraeg/Saesneg** | | |
| Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall a chyfathrebu ystyr cyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall, ac adalw yn ddiweddarach mewn mwy o fanylder, ystyr cyffredinol yr hyn rwyf wedi'i glywed. |
| Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau yn glywedol mewn gwahanol safleoedd. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed. | Rwy'n gallu gwrando ar a deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan grynhoi'r prif bwyntiau. |
| Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth ddarluniadol a/neu gwybodaeth lafar, a chyfarwyddiadau aml-gam am bynciau cyfarwydd ac arferion. | Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan adnabod y prif bwyntiau. | Rwy'n gallu gwrando ar, adnabod a defnyddio ciwiau i ddeall ystyr cyffredinol a syniadau sydd ymhlyg. |
| | Rwy'n gallu deall ac ymateb i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml-gam mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd. | |

Inspire



# Datblygu sgiliau gwrando




Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.

**Cymraeg/Saesneg**

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnyd |
|---|---|---|
| Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau.<br><br>Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau yn glywedol mewn gwahanol safleoedd. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall a chyfathrebu ystyr cyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed.<br><br>Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed.<br><br>Rwy'n gallu deall | Rwy'n gallu gw deall, ac adalw ddiweddarach mwy o fanylde cyffredinol yr h wedi'i glywed.<br><br>Rwy'n gallu gw a deall gwybo amrywiaeth o gan grynhoi'r p bwyntiau |




| | |
|---|---|
| Gwahaniaethu ffonemau | (Discriminate phonemes) Mae gwahaniaethu ffonem yn cyfeirio at y gallu i wahaniaethu rhwng y llafariaid a'r cytseiniaid, a elwir hefyd yn ffonemau, sy'n ffurfio geiriau iaith. |
| Gwahaniaethu seiniau | (Discriminate sounds) Y lefel fwyaf sylfaenol o wahaniaethu clywedol yw clywed y gwahaniaeth rhwng seiniau yn ein hamgylchedd, er enghraifft: gallu adnabod sŵn car yn pasio ac ati. |

# Cer / Ewch i nôl …





**Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.**

**Cymraeg/Saesneg**

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd : |
|---|---|---|
| Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau.<br><br>Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau yn glywedol mewn gwahanol safleoedd.<br><br>Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth ddarluniadol a/neu gwybodaeth lafar, a chyfarwyddiadau aml-gam am bynciau cyfarwydd ac arferion. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall a chyfathrebu ystyr cyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed.<br><br>Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed.<br><br>Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan adnabod y prif bwyntiau.<br><br>Rwy'n gallu deall ac ymateb i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml- | Rwy'n gallu gwr deall, ac adalw ddiweddarach m mwy o fanylder, cyffredinol yr hy wedi'i glywed.<br><br>Rwy'n gallu gwr a deall gwybod amrywiaeth o by gan grynhoi'r pr bwyntiau.<br><br>Rwy'n gallu gwr adnabod a defn ciwiau i ddeall y cyffredinol a syr sydd ymhlyg. |

# Syniadau pellach …

Es i'r siop a phrynais …

Mae Seimon yn dweud …



Adeiladu brawddeg / stori gair am air…

Goleuadau traffig – lliw gwahanol i gynrychioli symudiad / gweithred

Os rydych chi'n gwisgo … gallwch …

Mae rhieni yn bwysig iawn yn natblygiad iaith eu plant ac i'r broses o gaffael iaith yn y cyfnod cynnar. Rhieni – ac oedolion eraill allweddol, wrth gwrs – **sy'n canu i'w plant, yn chwarae gemau bys a bawd, sy'n goglais eu plant, sy'n rhoi cwtsh iddyn nhw ac yn darllen iddyn nhw.** Bydd rhieni, oedolion eraill, a hyd yn oed plant hŷn, yn siarad gyda babis mewn ffordd arbennig. Cyfeirir at y math hon o ieithwedd neu gywair ieithyddol fel mameg (motherese), gofaleg (caretaker speech) neu, yn syml, iaith oedolion at blant (adult speech to children). Clywir yn math hyn o siarad elfennau penodol megis: ailadrodd, aralleirio, goslefu pendant, enwi cyson, defnydd o ystumiau corfforol ac ystumiau wyneb. Gwelir hyn yn cael ei adlewyrchu'n aml yn niwylliant **rhigymau a hwiangerddi plant**.

(Siencyn a Richards, 2010, t.157)










# Hwiangerddi














# Cynllunio ac addysgu sgiliau gwrando … eich tro chi





| Gorsaf | Pa adnoddau? | Pa weithgaredd? | Pa sgiliau sy’n cael eu datblygu? |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | | | |
| 3 | | | |
| 4 | | | |

# Gwrandewch yn ofalus ...

1. Ydych chi'n barod?  Ydy pawb yn gwrando?
2. Gwrandewch yn astud.
3. Mae wyneb a chorff y pili pala mawr yn binc.
4. Mae adenydd y pili pala yn borffor a melyn.  Mae'r tu allan yn borffor ac mae'r tu mewn yn felyn.
5. Mae'r borfa a choesau'r blodau'n wyrdd.
6. Mae'r blodyn mwyaf yn felyn gyda chanol oren.
7. Mae'r blodyn lleiaf yn goch gyda chanol melyn.
8. Mae'r blodyn canolig yn felyn gyda chanol glas.
9. Mae un o'r pili palod bach yn binc.
10. Mae un o'r pili palod bach yn las golau.
11. Ac mae un o'r pili palod yn goch.
12. Rhannwch eich llun.



Gwrandewch yn ofalus ...



# Gwrandewch yn ofalus ...



1. Peintiwch eich llaw yn felyn.
2. Cadwch eich bysedd yn dynn gyda'i gilydd.
3. Gwasgwch eich llaw ar y papur.  Oes deilen felen gyda chi?
4. Gwnewch yr un peth bedair gwaith.
5. Golchwch eich llaw yn lân.
6. Peintiwch eich llaw yn oren.
7. Agorwch eich bysedd wrth roi'r llaw ar ben uchaf'r dwylo melyn.
8. Golchwch eich llaw yn lân.
9. Bydd angen brws paent a phaent gwyrdd arnoch.
10. Tynnwch lun coesyn yn dod allan o dan y dwylo / dail melyn.
11. Rydych chi wedi llwyddo i wneud cenhinen bedr! Da iawn!



# Gwrandewch yn ofalus ...



**Sam Tân**

**Pwy adawodd y gath mas?**

| | |
|---|---|
| 1. Beth ydy enw'r ferch sydd yn y fan? | |
| 2. Beth ydy gwaith Lizzie? | |
| 3. Beth sy'n drewi? | |
| 4. Sawl llyfr darodd Norman ar ei ben? | |
| 5. Pa blant sydd yn y tŷ yn gwylio'r ffilm? | |
| 6. Pwy ydy perchennog y gath? | |

# Gwrandewch yn ofalus ...




https://youtu.be/3RwgAYVntUg?si=AQEcNuQW7qrxtrff

| Cam Cynnydd 1 | Cam Cynnydd 2 |
|---|---|
| Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well. | Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau a dangos fy nealltwriaeth. |
| Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld. | |
| Rwy'n gallu siarad am yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen neu'i weld, a mynegi barn syml. | |

1. Beth ydy enw'r gân?
2. Pa ran o'r corff sy'n cael ei enwi'n gyntaf?
3. Enwch dri rhan o'r corff sy'n cael eu henwi yn y gân.
4. Pa anifail sy'n canu'r piano?

Pa anifeiliaid sy'n dawnsio?

Pa liw ydy coler y ci?

# Munud i feddwl …

Beth ydy'r peth pwysicaf ddysgoch chi heddiw?


D I O L C H